# 7.0 Dod o hyd i arian a'i gael

## Addas ar gyfer cyllido

## Trosolwg


1. Beth sy'n addas i'w gyllido?
2. Dogfennau llywodraethu
3. Polisïau
4. Cyllid
5. Datganiadau Blynyddol
6. Rheolaeth
7. Beth os byddwch chi'n llwyddiannus?


## Beth sy'n addas i'w gyllido?

Cyn dechrau ymgeisio am gyllid, mae'n bwysig edrych ar eich mudiad o safbwynt rhywun o'r tu allan a gofyn rhai cwestiynau i chi'ch hun ynghylch y ffordd y caiff eich mudiad ei redeg.

Mae angen gwneud hyn oherwydd mae angen i gyllidwyr wybod y gallant ddibynnu arnoch i ofalu am eu harian, a bod eich prosiect yn debygol o lwyddo.

- A ydych chi'n fudiad sy'n cael ei redeg yn dda?
- A ydych chi'n rheoli'ch arian yn dda?
- A yw'r holl ddogfennau llywodraethu'n gyfredol?
- A yw'r holl bolisïau priodol yn eu lle?

Os nad ydych chi'n siŵr ynghylch unrhyw un o'r cwestiynau hyn, gall y canllawiau canlynol ddarparu rhai meysydd allweddol i chi eu hystyried.

## Dogfennau llywodraethu

Y man cychwyn ar gyfer rheoli'ch grŵp yw'r ddogfen lywodraethu, pa un a ydych yn grŵp gwirfoddol, yn **elusen gofrestredig** neu'n **gwmni cyfyngedig drwy warant**.

Cyn gwneud cais am grantiau, gwiriwch fod eich cyfansoddiad yn gyfredol a'i fod yn cynnwys holl weithgareddau presennol y mudiad. Talwch sylw arbennig i hyn os ydych wedi ehangu'n ddiweddar neu'n bwriadu ehangu i faes gweithio newydd.

- A yw eich amcanion yn cynnwys eich cynlluniau newydd?
- A yw eich cyfansoddiad yn eich galluogi i godi arian drwy grantiau?

Os yw'r strwythur rheoli wedi newid neu os yw arweinyddiaeth eich mudiad wedi newid, gwnewch yn siŵr fod hyn yn cael ei adlewyrchu yn eich dogfennau llywodraethu.

Mae gan rai mudiadau ddyddiad adolygu wedi'i ysgrifennu yn eu cyfansoddiad. A oes gan eich cyfansoddiad ddyddiad adolygu, a yw'r dyddiad wedi mynd heibio? Gall hyn fod yn arwydd gwael i gyllidwyr.

Gall cyllidwyr wirio a oes cymal diddymu sy'n nodi beth fyddai'n digwydd pe bai'r mudiad yn cael ei ddiddymu.

## Polisïau

Dylai eich polisïau a'ch dogfennau llywodraethu adlewyrchu ei gilydd o ran y mathau o weithgareddau y maen nhw'n eu disgrifio. Dylai eich polisïau eich diogelu ar gyfer y mathau o waith a ddisgrifiwyd yn eich dogfennau llywodraethu.

Ystyriwch a yw eich mudiad yn gweithio yn y meysydd canlynol ac a oes gennych chi'r polisïau angenrheidiol yn eu lle:

- Diogelu
- Rheoli'r amgylchedd
- Iechyd a diogelwch
- Gwirfoddoli
- Cyfrinachedd
- Cyfleoedd Cyfartal
- Yr Iaith Gymraeg

Gwnewch yn siŵr fod yr holl bolisïau yn edrych fel dogfennau proffesiynol sy'n cynrychioli eich mudiad orau. Dylid arwyddo a dyddio polisïau er mwyn sicrhau hyn a gall fod yn ofyniad gan rai cyllidwyr.

## Cyllid

Bydd cyllidwyr yn edrych ar gofnodion ariannol eich mudiad er mwyn pennu a fydd y grant yn cael ei reoli'n effeithiol ac a yw eich mudiad yn ddigon sefydlog yn ariannol i redeg trwy gyfnod y prosiect.

- A allwch chi ddarparu cyfrifon blynyddol cyfredol sy'n rhoi darlun clir o'ch sefyllfa ariannol?
- A ydynt wedi'u cymeradwyo gan eich pwyllgor ac wedi'u gwirio neu eu harchwilio'n annibynnol?

Gofynnwch i chi'ch hun a oes gennych chi systemau ar waith i gofnodi'r holl arian sy'n dod i mewn ac yn mynd allan. Pa wiriadau a rheoliadau sydd ar waith i osgoi camgymeriadau a chadw arian yn ddiogel?

Os ydych chi'n rhedeg ar golled neu â chronfeydd wrth gefn isel iawn, mae'n bosibl y bydd angen i chi gyflwyno gwybodaeth ychwanegol i argyhoeddi'r cyllidwr y bydd y grant yn ddiogel a'r prosiect yn cael ei reoli'n effeithiol.

## Datganiadau Blynyddol

Os ydych chi'n gwmni neu'n elusen gofrestredig, a yw eich datganiadau blynyddol i'r **Comisiwn Elusennau** a/neu **Tŷ'r Cwmnïau** yn gyfredol?

**Cofiwch**

Cofiwch fod rhai cyllidwyr yn gwirio gwefan y Comisiwn Elusennau yn rheolaidd.

## Rheolaeth

Mae'n bwysig bod yr holl reolwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau cyfreithiol. Eich tîm uwch-reolwyr yw arweinwyr eich mudiad a dylent feddu ar y sgiliau a'r wybodaeth berthnasol. Os nad hyn yw'r achos, a allwch chi ddangos eich bod yn gwybod ble mae'r bylchau ac eich bod chi'n gwneud rhywbeth ynghylch hyn?

Mae hyn yn arbennig o bwysig os ydych chi'n dechrau prosiect mawr newydd – er enghraifft, cyflogi staff am y tro cyntaf neu brosiect adeiladu mawr.

## Beth os byddwch chi'n llwyddiannus

Os byddwch chi'n llwyddo derbyn cyllid, mae'n bwysig ystyried y ffyrdd gorau o reoli'r grant ac adrodd y canlyniadau i'ch cyllidwr. Efallai y bydd gan gyllidwyr eu prosesau monitro eu hunain, ond mae'n arfer da i roi prosesau monitro mewnol ar waith ar gyfer pob prosiect. Bydd hyn o gymorth i adrodd yn ôl i'ch cyllidwr mewn da bryd, adeiladu achos am gymorth ar gyfer ceisiadau yn y dyfodol a chadw llygad ar gynnydd eich prosiect rhag ofn y bydd angen gwneud unrhyw addasiadau.

Cyn gwneud cais, gwerthuswch yr effaith y bydd y prosiect yn ei chael ar eich mudiad.

- A oes gan eich staff ddigon o amser ac adnoddau i redeg y prosiect hwn?
- A oes gennych chi'r gallu i fodloni holl ofynion y grant?

Edrychwch ar Hwb Gwybodaeth TSSW i weld yr adnoddau eraill a allai fod yn ddefnyddiol i chi.
Yr Hwb Gwybodaeth

Cefnogi Trydydd Sector Cymru Third Sector Support Wales

Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Third Sector Support Wales

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â
https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.